

CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC EIDDO Ionawr 30, 2024 i ddechrau am 7 y.h.

Cof;-1/01/2024. Presennol :- Cynghorwyr :- Cadeirydd Aled Griffiths, Is Gadeirydd Alwyn Gruffydd, Dr Melfyn Edwards, Carol Hayes, Gwilym Jones, Michael Roberts
Eric Price (Clerc)

.....
Cof;-2/01/2024 Ymddiheuriadau :- dim.

.....
Cof;-3/01/2024 Adroddiad y Clerc. Y Clerc yn gadael yr ystafell tra bu trafodaeth.
Clerc yn dychwelyd.
Penderfynu hysbysebu swydd Clerc tan hyfforddiant rhan amser 16 awr yr wythnos.

.....
Cof;-4/01/2024 Sefyllfa ariannol.
Nid yw'r Clerc wedi cael ei enw ar gyfrif y Cyngor eto felly amcangyfri' yn unig.
Derbyniadau £89,606.69
Taliadau, £56,000
Amcan taliadau at 31/03/2024 £5,000. Taliadau i geisiadau am gymorth ariannol ddim yn y £5,000.
Yn y Banc 20-01-2024
Cyfredol; £55,854.32
Cynilo £34,579

.....
Cof;-5/01/2024 Gliniadur i'r Clerc.
Mae'r hen liniadur wedi darfod ei oes.
Penderfynu archebu un newydd ond gyda'r amod fod archebu yn lleol. Pris oddeutu £800.

.....
Cof;-6/01/2024 Lwfans Cynghorwyr
Bydd y Clerc yn talu rhai 2024-25 cyn Mis Mai. Os bydd Cynghorwr yn gadael cyn diwedd y flwyddyn bydd angen talu rhan ohono yn ôl.
Lwfans Cynghorydd £156 gyda £52 ychwanegol i gyd fynd ar lythyr sydd wedi ei yrru i Gynghorwyr gan y Clerc. Angen i Gynghorwyr cydnabod bod gwaith Cynghorwyr yn cael ei wneud gyda darpar yn eu cartrefi
Lwfans Cadeirydd yn parhau ar £1500

.....
Cof;-7/01/2024 Ffurflen cais am gymorth ariannol
Mae'r Clerc wedi ysgrifennu'r ddogfen yn y Gymraeg ar Saesneg yn ôl gofynion deddfau.
Penderfyniad yr is bwyllgor oedd cadw'r ddogfen yn Gymraeg yn unig yn erbyn cyngor y Clerc.

.....
Cof;-8/01/2024 – Llogi swyddfa yn y ganolfan
Adroddodd y Clerc nad yw sefyll, tra argraffu a symud y printar o gwmpas wrth ei ddadffocio, yn briodol fel gweithfan ac felly mae'n gofyn am swyddfa i weithio mewn modd hybrid. Mae wedi cael cyfarfod rhagarweiniol gyda'r ganolfan sydd wedi dweud ie am £50 y mis am un lle, ond gan fod hwn i'w rannu gyda Chyngor Gwynedd nid yw yn briodol. Mae toiled dynion i'r dde wrth ddod i mewn gyda swyddfa nes ymlaen. Y swyddfa yma fyddai'n ddelfrydol.

.....

Penderfynu cytuno.

.....
Cof;-9/01/2024 cael ap SCRIBE

Mae system gyfrifo'r Cyngor yn hen ffasiwn. Mae'r Clerc yn awgrymu defnyddio ap SCRIBE Penderfynu i'r Cynghorydd Gwilym Jones edrych i mewn i'r ap ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

.....
Cof;-10/01/2024 Llwybrau

Dim angen trafod oherwydd nid yw'r tendr yn cau tan gyntaf o Fawrth.

.....
Cof;-11/01/2024 Cae chwarae

Gofynnodd y Clerc am eglurhad a oedd y cwmni sy'n ymchwilio i'r offer chwarae yn flynyddol hefyd yn darparu adroddiad ar eu canfyddiadau. Adroddodd y Cyngor eu bod yn derbyn adroddiadau. Aeth y Cadeirydd ymlaen i adrodd ar y cyfarfod a gafwyd gyda'r "National Grid" a'r effaith ar y cae chwarae sy'n golygu y bydd allan o derfynau am o leiaf tair blynedd, dechrau o ddiwedd 2024. Cynhelir cyfarfod safle arall gyda'r NG, ond yn gyntaf cytunwyd y byddai rhai o aelodau'r Cyngor yn trefnu i gyfarfod yn y cae i gadarnhau gyda'i gilydd y cwestiynau a'r posibilïadau i symud yr offer chwarae i le diogel. Hefyd i gadw mewn cof yr adroddiad ar ddatblygu'r cae ar gyfer defnydd pobl ifanc.

.....
Cof;-12/01/2024 Cae Pawb

Yn dilyn cais y Clerc am eglurhad o'r berthynas rhwng y Cyngor Tref ar Gymdeithas sy'n rheoli rhai agweddau o'r rhandir, perchenogaeth y tir ac yswirio'r lleiniau awgrymodd efallai y byddai'n syniad i gynnig les ar Gae Pawb i'r Gymdeithas.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cadarnhau'r berchnogaeth gyda Chyngor Gwynedd yn gyntaf.

.....
Cof;-13/01/2024 Lloches Bws - Angen cytuno ar bris y Lloches fel ased. Cyfeillion Borth y Gest yn gofyn am golau Nadolig ar y Lloches bws.

Penderfynu codi pris ased lloches bws i £20,000 yr un o £10,000

Cytunwyd i ofyn i gyfeillion Borth y Gest dynnu llun o'r goleuadau y maent yn gofyn amdanynt gyda chost, a'i anfon i'r Cyngor. Unwaith y byddant yn profi bod y dadleuon rhwng cyfeillion Borth y Gest yn y gorffennol, bydd y gost yn cael ei drafod yn cyfarfod Cyngor y Dref. Os cytunir arno, Cyfeillion Borth y Gest fydd yn gyfrifol am y goleuadau a'r pŵer sydd eu hangen iddynt.

.....
Cof;-14/01/2024 Gwefan.

Angen ei ail gynllunio oherwydd ddim yn cydymffurfio ar ddeddfau.

Penderfynu i'r Clerc ofyn am bris ysgrifenedig gan y person sydd yn rheoli'r wefan i'r Cyngor.

.....
Cof;-15/01/2024 Goleuadau Nadolig – trydanwr yn adrodd bod angen rhai newydd i'r coed Nadolig gan nad yw rhai sydd gan y Cyngor Tref yn ddiogel.

Penderfynu rhoi ar raglen llawn y Cyngor Tref oherwydd derbyn adroddiad ar gyflwr y goleuadau 29/01/2024.

Penderfynu rhoi gweddill yr eitemau ar raglen llawn y Cyngor Tref.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 y.h.

Eric Price (Clerc)

30/01/2024

